**Geirfa Allweddol**

Anghydraddoldeb rhywedd - gwahaniaethu ar sail rhyw neu rywedd sy'n achosi i un rhyw neu rywedd gael mantais neu ei flaenoriaethu dros y llall fel mater o drefn.

Ail-genhedlu – y gred pan fydd y corff yn marw mae’r enaid yn cael ei ail-genhedlu i mewn i gorff arall.

Ariangarwch – gosod arian a phres fel y peth pwysicaf mewn bywyd.

Caethiwed - mynd i’r arferiad o wneud rhywbeth gan fethu rhoi gorau iddi.

Cyffur - unrhyw sylwedd sy’n cael ei gyflwyno i’r corff ac sy’n newid y ffordd y mae’r meddwl a’r corff yn gweithio.

Cymdeithas batriarchaidd - strwythur cyffredinol lle mae gan ddynion bŵer dros ferched.

Dharma - dysgeidiaethau'r Bwdha.

Dibyniaeth - y cyflwr o fethu gwneud heb ryw sylwedd neu gyffur.

Dukkha - y ddysgeidiaeth bod bywyd yn anfoddhaol/llawn dioddefaint.

Fix – dôs o gyffur y mae rhywun yn gaeth iddo.

Ffeministiaeth - ymladd dros hawliau cyfartal i ferched.

Ganges – afon yn India sy’n cael ei hystyried gan lawer o Hindŵiaid a Sikhiaid fel yr afon fwyaf sanctaidd yn y byd.

Gamblo - cymryd rhan mewn gêm neu weithgaredd lle mae person yn mentro arian neu eiddo yn y gobaith o ennill arian.

Ganja - enw Rastaffariaid ar y cyffur canabis neu marijuana.

Goleuedigaeth - trawsnewid i fyd arall o realiti, dianc o gylch bywyd y byd hwn.

Gurmukh – yr enw ar rywun mewn Sikhiaeth sy’n byw yn ôl ewyllys Duw.

Guru Granth Sahib - awdurdod uchaf Sikhiaeth - mae’n cynnwys dysgeidiaeth y deg Guru Sikhiaid.

Gwahaniaethu - trin rhai pobl yn wahanol i eraill.

Haile Selassie – Ymerawdwr Ethiopia 1930 – 1974. Mae Rastaffariaid yn credu mai ef yw Duw.

Haram – pethau sydd wedi eu gwahardd mewn Islam.

Hawliau dynol - hawliau y dylai pob bod dynol eu derbyn.

Heroin – cyffur sy’n cael ei wneud o opiwm.

Khamr – y gair mewn Islam am unrhywbeth sy’n cymylu’r meddwl.

Manmukh - yr enw Sikhiaid am rywun sy’n hunanol ac yn anwybyddu ewyllys Duw.

Mynd yn gaeth - mynd yn gwbl ddibynnol ar ryw gyffur a methu gwneud hebddo (addicted).

Nirfana - rhyddhad llawn o ddioddefaint y byd hwn.

Opiwm - cyffur sydd yn y popi opiwn ac sy’n sail i’r cyffur herion.

Pechod – yr hyn sydd yn ddrwg o safbwynt crefyddol.

Rahit Maryada - cod disgyblaeth Sikhiaeth.

Rastaffariaeth – crefydd a ddatblygodd yn Jamaica yn ystod y 1930au.

Rêf – parti bywiog yn cynnwys bwyd a chyffuriau.

Rhagfarn - barn ragdybiedig nad yw'n seiliedig ar reswm na phrofiad gwirioneddol.

Sangha - y gymuned Fwdhaidd.

Sansgrit - iaith Indiaidd hynafol.

Swffragetiaid - merched sy'n ceisio'r hawl i bleidleisio drwy brotestio mewn modd sydd wedi’i drefnu.

Taliban - Grŵp ffwndamentalaidd Islamaidd

Taliban – Grŵp ffwndamentalaidd Islamaidd sy’n rheoli Afghanistan ers 2021.

Talmud – casgliad o weithiau sy’n esbonio cyfraith yr Iddewon.

Torah – cyfraith Duw i’r Iddewon / pum llyfr cyntaf y Beibl Iddewig.

Y Bwdha - sylfaenydd Bwdhaeth

Y Cenhedloedd Unedig - sefydliad rhynglywodraethol a'i ddiben datganedig yw cynnal heddwch a diogelwch rhyngwladol.

Y Lotus Sutra - testun Bwdhaidd crefyddol.

Ysbrydolrwydd - ymwneud â'r ysbryd neu'r enaid dynol yn hytrach na phethau materol neu gorfforol.